# Cyflwyniad

## Sarah Payne

## Cyfarwyddwr,
## NOMS yng Nghymru



**Mae NOMS yng Nghymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau MAPPA er mwyn sicrhau nad yw pobl yn dioddef niwed difrifol. Canran fach o holl droseddau Cymru sy'n droseddau treisgar neu droseddau rhyw, ond mae troseddau o'r fath yn cael effaith fawr ar ddioddefwyr, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae gan ddioddefwyr, a dioddefwyr posibl, hawl i deimlo'n ddiogel, ac er nad yw'n bosibl dileu'r risg yn llwyr mae trefniadau MAPPA wedi'u cynllunio er mwyn dod ag asiantaethau at ei gilydd i helpu i reoli'r risg honno a sicrhau ei bod cyn lleied ag sy'n bosibl. Amddiffyn y cyhoedd yw prif flaenoriaeth NOMS yng Nghymru a phob un o'r asiantaethau sy'n ymwneud â MAPPA ac mae'r adroddiad hwn yn dangos bod pob sefydliad yn benderfynol o sicrhau bod y maes pwysig hwn yn dal i gael lle blaenllaw. Rwy'n falch o'n staff, eu llwyddiant y llynedd a'u hymrwymiad i sicrhau rhagoriaeth MAPPA yng Nghymru.**

## Peter Vaughan

## Prif Gwnstabl,
## Heddlu De Cymru



**Mae Heddlu De Cymru wedi ymrwymo i drefniadau amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn y cyhoedd ac maent yn dal i adeiladu ar fuddsoddiad y blynyddoedd diwethaf er mwyn amddiffyn ein cymunedau rhag y troseddwyr rhyw a'r troseddwyr treisgar mwyaf difrifol. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod MAPPA yn ddull effeithiol o fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â throseddwyr a darparu gwell gwasanaeth i'r cyhoedd. Rydym yn ddiolchgar i'n staff ac i'n partneriaid sy'n cyfrannu tuag at y gostyngiad hwn mewn cyfraddau aildroseddu ac yn helpu i sicrhau bod llai o bobl yn dioddef troseddau. Mae ein swyddogion ymroddedig, sydd wedi'u hyfforddi i safon uchel, yn gweithio gyda phartneriaid ym mhob un o'r asiantaethau MAPPA er mwyn cyflawni'n cenhadaeth, sef Cadw De Cymru'n Ddiogel.**

| Troseddwyr Lefel 2 a 3 a anfonwyd yn ôl i'r ddalfa | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri amodau trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 16 | 19 | 0 | 35 |
| Lefel 3 | 3 | 0 | 0 | 3 |
| Cyfanswm | 19 | 19 | 0 | 38 |
| **Torri Gorchymyn Atal Troseddau Rhyw** | | | | |
| Lefel 2 | 3 | - | - | 3 |
| Lefel 3 | 1 | - | - | 1 |
| Cyfanswm | 4 | - | - | 4 |
| **Cyfanswm y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o bobl** | | | | 105 |

Cyfrifwyd y swm hwn gan ddefnyddio Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2013: Blwyddyn Unigol ar sail oedran a rhyw ar gyfer Ardaloedd yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr; amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl, wedi'i gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 26 Mehefin 2014, ac eithrio'r rhai sy'n iau na deng mlwydd oed.

